# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Green Gables**

**Pen-y-bont ar Ogwr**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Green Gables

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Values in Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 5 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 6 Mawrth 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Green Gables yn darparu gofal a chymorth ardderchog sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn byw mewn amgylchedd cyfforddus a chartrefol sy'n lân ac yn addas i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn cael eu trin ag urddas a pharch gan dîm ymroddedig o staff gofal sy'n eu hadnabod yn dda. Caiff y bobl a'u heiriolwyr eu cynnwys yn y broses o lunio cynlluniau personol o ansawdd uchel, a chaiff y rhain eu diweddaru pan fydd unrhyw newidiadau mewn gofal. Mae ganddynt fywyd cymdeithasol ardderchog gan eu bod yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon a digwyddiadau cymunedol, gan gynnwys gwyliau. Mae gan y cwmni strwythur rheoli cryf ac mae wedi adeiladu tîm o staff ymroddedig. Mae'r rheolwyr yn croesawu syniadau newydd ac yn defnyddio ffyrdd arloesol i ddarparu gwasanaeth hyblyg a hynod effeithiol sy'n gwella ansawdd bywyd y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Maent yn cael cymorth rhagorol gan y rheolwyr, sy'n eu cymell ac yn eu galluogi i ddatblygu'n barhaus. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn weladwy, yn hawdd mynd atynt ac yn cael eu parchu. Maent yn monitro'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod safonau ardderchog yn cael eu cynnal.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas rhagorol a chynhesrwydd yng ngwasanaeth Green Gables. Mae'r gweithwyr gofal yn siarad â'r bobl mewn ffordd garedig ac amyneddgar. Dywedodd y bobl a'u teuluoedd wrthym y gwrandewir ar eu safbwyntiau a'u dymuniadau ac y cânt eu parchu. Gwelsom fod y bobl yn gallu cyfathrebu â'r gweithwyr gofal gan ddefnyddio geiriau neu amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu dieiriau. Mae'r gofal a'r cymorth yn rhagorol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r gwasanaeth wedi meithrin cydberthnasau a llinellau cyfathrebu rhagorol â'r perthnasau ac mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ac yn eu cynnwys yng ngofal eu hanwyliaid. Gall ffrindiau a pherthnasau ymweld pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

Caiff llesiant emosiynol, iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl eu hybu. Mae'r bobl yn byw bywydau egnïol a phrysur ac yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau y tu allan i'r gwasanaeth. Mae tîm o staff rheolaidd a sefydlog yn y gwasanaeth ac mae'r staff gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi'n dda, gan gydnabod unrhyw newidiadau o ran eu hymddangosiad neu eu hiechyd a chymryd camau priodol. Caiff meddyginiaeth ei rheoli'n dda iawn yn y gwasanaeth. Caiff apwyntiadau meddygol arferol ac apwyntiadau yn ôl yr angen eu dogfennu'n briodol yn y cofnodion gofal.

Mae mesurau effeithiol iawn ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Caiff y staff gofal eu recriwtio'n ddiogel er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Ceir polisi diogelu sy'n unol â'r canllawiau statudol diweddaraf. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn gallu nodi newidiadau yn eu hymddangosiad. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon. Mae'r asesiadau risg yn tynnu sylw at bryderon ac yn rhoi arweiniad ar y ffyrdd gorau o gadw'r bobl yn ddiogel.

Mae trefniadau goruchwylio rhagorol ar waith yn y gwasanaeth. Mae'r rheolwyr yn defnyddio nifer o adnoddau archwilio er mwyn goruchwylio'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd, yn archwilio'r systemau ac yn siarad â'r bobl a'r staff er mwyn casglu eu barn am y gwasanaeth i lywio gwelliannau.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n cefnogi ac yn annog eu llesiant. Mae eu hystafelloedd yn cynnwys eitemau personol o'u dewis, maent wedi'u dodrefnu'n addas, ac maent yn cynnwys cyfleusterau sy'n annog eu hannibyniaeth ac yn eu galluogi i gael amser preifat.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael budd o ofal a chymorth rhagorol. Mae dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gynllunio gofal yn sicrhau bod y bobl wrth wraidd y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Mae dogfennau a phroses cyn derbyn y gwasanaeth yn ystyried cydnawsedd unigolyn â'r bobl sydd eisoes yn byw yn y gwasanaeth. Mae'r ffeiliau gofal yn rhoi gwybodaeth ragweithiol, gyfredol a chlir am anghenion yr unigolyn. Caiff y cynlluniau personol eu datblygu ar y cyd â'r person a'i gynrychiolydd. Maent yn nodi canlyniadau'r bobl ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r gweithwyr gofal mewn perthynas â darparu gofal. Mae asesiadau risg a chynlluniau rheoli cadarn yn nodi gwendidau'r bobl ac yn rhoi arweiniad i'r gweithwyr gofal ar ymyriadau a fydd yn cadw'r bobl yn ddiogel.  Dywedodd un o reolwyr gofal yr awdurdod lleol wrthym "*They continue to meet his needs to a high standard*". Dywedodd perthnasau wrthym "*They know him very well; they meet his needs*" ac "*I am very happy with the care*".

Mae systemau cadarn iawn ar waith yn y gwasanaeth i reoli meddyginiaethau. Mae gweithdrefn a pholisi meddyginiaeth manwl ar waith a chaiff archwiliadau rheolaidd eu cwblhau.  Mae'r cofnodion rhoi meddyginiaeth yn gywir. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei chadw mewn cwpwrdd diogel dan glo. Mae'r hen gegin wrthi'n cael ei hadnewyddu i greu'r ystafell feddyginiaeth newydd. Cedwir cofnod o'r tymheredd a chaiff ei fonitro er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Mae'r ffeiliau gofal yn cynnwys cofnodion o apwyntiadau â gweithwyr meddygol proffesiynol.

Mae'r gwasanaeth yn cymryd pob cam rhesymol i nodi ac atal y posibilrwydd o gamdriniaeth. Mae'r staff yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel a gwnaethant ddweud wrthym y byddent yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer chwythu'r chwiban a gwnaethant ddweud eu bod yn teimlo'n hyderus i godi mater gyda'r tîm rheoli pe bai angen. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu a bod polisi diogelu cyfredol ar waith i bob aelod o'r staff ei ddarllen a'i ddilyn. Dywedodd perthynas wrthym "*I can honestly say I can go a whole day now and not worry about him*".

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn darparu amgylchedd pleserus, cyfforddus a chartrefol. Mae'r ystafelloedd gwely wedi cael eu haddurno i safon dda ac mae'r ardaloedd cymunedol yn ymddangos yn gynnes, mewn cyflwr da ac yn lân. Gwelsom fod dodrefn a chyfarpar ar gael i'r bobl sy'n briodol i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r ardaloedd cymunedol yn fawr ac yn hygyrch i gefnogi symudedd y bobl. Gellir cael gafael ar gyfleusterau'r gegin yn hawdd er mwyn cefnogi annibyniaeth. Mae gardd sydd mewn cyflwr da yn amgylchynu'r adeilad, a ddefnyddir yn ystod y misoedd cynhesach.

Mae'r fynedfa i'r gwasanaeth yn ddiogel a chaiff dogfennau eu storio'n ddiogel. Gofynnir i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd, i sicrhau bod diogelwch y bobl yn cael ei gynnal. Caiff gwybodaeth ei storio'n ddiogel mewn cabinet ffeilio dan glo, a chaiff dogfennau gofal eu trin yn sensitif, gan sicrhau y caiff preifatrwydd y bobl ei gynnal.

Mae'r ystafell golchi dillad yn addas i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae systemau priodol ar waith ac mae'r holl gyfarpar golchi dillad yn gweithio. Mae'r trefniadau ar gyfer storio sylweddau a allai achosi niwed yn ddigonol, ac maent yn cael eu cadw'n briodol mewn cwpwrdd dan glo.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y gwasanaeth weledigaeth ac ethos cadarn iawn. Mae ei nodau, ei werthoedd, a'r cymorth a ddarperir wedi'u nodi yn y Datganiad o Ddiben mewn ffordd dryloyw. Mae canllaw ysgrifenedig ar gael i'r bobl yn y gwasanaeth, sy'n cynnwys gwybodaeth ymarferol am y cartref, a'r cymorth a ddarperir. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig amrywiaeth rhagorol o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i'r bobl a'u cynrychiolwyr ofyn cwestiynau a rhoi adborth.

Mae'r gweithwyr gofal cael hyfforddiant a chymorth cynhwysfawr i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'i ofynion hyfforddiant. Caiff gweithwyr gofal newydd hyfforddiant sefydlu yn unol â gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant parhaus i ddiwallu anghenion penodol y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt. Maent yn dweud eu bod yn fodlon ar yr hyfforddiant sydd ar gael. Mae'r staff yn siarad yn gadarnhaol am y cymorth goruchwylio ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd y maent yn ei gael gan y tîm rheoli. Mae gan y cwmni bolisïau a gweithdrefnau cyfredol a chadarn mewn perthynas â diogelu, chwythu'r chwiban, rheoli heintiau a meddyginiaeth. Caiff y staff eu goruchwylio a'u harfarnu'n rheolaidd. Ar y cyfan, mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi a bod aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt. Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd, sy'n cefnogi arferion cyfathrebu da. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu rolau ac roeddent yn canmol y rheolwr. Gwnaethant ddweud wrthym "*Nicest job in the world*", "*staff members provide an excellent service to the people here*" ac "*I enjoy it, I wouldn't be here otherwise*". Mae trosiant y gweithwyr gofal yn isel iawn, ac mae rhai ohonynt wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers llawer o flynyddoedd, sy'n helpu i hwyluso parhad gofal.

Mae'r arferion recriwtio yn drylwyr iawn ac mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn yn eu rolau. Gwelsom fod y ffeiliau recriwtio yn drefnus iawn ac yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i sicrhau bod y staff yn addas ac yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol. Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Roedd y rota staff yn adlewyrchu'r lefelau staffio ar ddiwrnod ein harolygiad. Dangosodd arsylwadau ar y diwrnod fod y staff yn gweithio'n dda fel tîm ac yn cefnogi ei gilydd. Cafodd hyn ei gadarnhau gan yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw, a dywedodd un *"We all get on."* Mae nifer o raglenni cymorth ar gael i'r staff. Mae gan y cwmni 'Happy App' lle y gall y staff gael gafael ar bolisïau, cwnsela am ddim, a chynllun adnabod staff.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg a'i reoli'n eithriadol o dda. Mae trefniadau llywodraethu, archwilio a sicrhau ansawdd cadarn ar waith sy'n helpu i redeg y gwasanaeth yn effeithlon. Mae'r systemau gwerthfawr hyn yn helpu'r gwasanaeth i hunanwerthuso ac i nodi ble y mae angen gwneud gwelliannau. Gwelsom dystiolaeth o'r gwasanaeth yn cymryd camau

gweithredu cadarn i fynd i'r afael ag unrhyw faterion. Gwelsom dystiolaeth o'r Unigolyn Cyfrifol yn cyflawni'r ymweliadau gwasanaeth bob tri mis a'r adolygiadau o ansawdd y gofal bob chwe mis sy'n ofynnol yn gyfreithiol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 36 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio â Rheoliad 36(2)(d) ac nid yw pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gloywi craidd | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/04/2024